

## DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990

### GORCHYMYN CAU PRIFFYRDD (HEOL LLANGEWYDD, PEN-Y-BONT AR OGWR) 2021

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 247 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ("Deddf 1990") i awdurdodi cau'r darnau o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Hysbysiad hwn. Nid awdurdodir cau'r briffordd ond er mwyn gwneud y datblygiad yn unol â'r caniatâd cynllunio a roddwyd o dan Ran 3 o Ddeddf 1990 gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ar 27 Mai 2020 o dan y cyfeirnod P18/1006/FUL ac a ddisgrifir yn Atodlen 2 i'r Hysbysiad hwn.

Bydd Gorchymyn Cau Priffyrdd (Heol Llangewydd, Pen-y-bont ar Ogwr) 2021 ("y Gorchymyn") yn peidio â chael effaith os daw'r caniatâd cynllunio mewn cysylltiad â'r datblygiad i ben neu os caiff ei ddirymu.

Gellir edrych ar gopiau o'r Gorchymyn a'r plan a adnewyd yn rhad ac am ddim yn ystod oriau busnes arferol yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Y Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont ar Ogwr CF31 4WB, neu gellir eu cael yn rhad ac am ddim o'r cyfeiriad isod drwy ddyfynnu'r cyfeirnod qA1466673.

Caiff unrhyw berson a dramgwyddir gan y Gorchymyn, ar y sail:

- a. nad yw o fewn pwerau Deddf 1990; neu
- b. na chydymffurfwyd ag un o ofynion gweithdrefnol Deddf 1990;

o fewn 6 wythnos i 10 Medi 2021, wneud cais i'r Uchel Lys at y diben hwnnw.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan [Llywodraeth Cymru](https://llyw.cymru/gorchmynion-cau) ar <https://llyw.cymru/gorchmynion-cau>.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**



**J SADDLER**  
Trafnidiaeth

## TOWN AND COUNTRY PLANNING ACT 1990

### THE STOPPING UP OF HIGHWAYS (LLANGEWYDD ROAD, BRIDGEND) ORDER 2021

The Welsh Ministers have made an Order under section 247 of the Town and Country Planning Act 1990 ("the 1990 Act") to authorise the stopping up of the lengths of highway described in Schedule 1 to this Notice. The stopping up will be authorised only in order to enable the development to be carried out in accordance with planning permission granted under Part 3 of the 1990 Act by Bridgend County Borough Council on 27 May 2020 with reference number P18/1006/FUL and described in Schedule 2 to this Notice.

The Stopping Up of Highways (Llangewydd Road, Bridgend) Order 2021 ("the Order"), will cease to have effect if planning permission in respect of the development expires or is revoked.

Copies of the Order and the deposited plan may be inspected free of charge at Bridgend County Borough Council, Civic Offices, Angel Street, Bridgend, CF31 4WB during normal business hours or may be obtained free of charge from the address below quoting reference qA1466673.

If a person is aggrieved by the Order, on the grounds that:

- a. it is not within the powers of the 1990 Act; or
- b. a procedural requirement of the 1990 Act has not been complied with;

that person may, within 6 weeks of 10 September 2021 make an application for the purpose to the High Court.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at <https://gov.wales/stopping-orders>.

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**



**J SADDLER**  
Transport

## ATODLEN 1

### Y darnau o briffordd sydd i'w cau (Bras amcan yw pob mesuriad)

Darn afreolaidd ei siâp o briffordd sy'n rhan o'r llain ymyl ar ochr ogleddol Heol Llangewydd, 130 o fetrau i'r gorllewin o Faes y Gorllewin, sy'n 5.4 metr yn y man hiraf ac yn 1.8 metr yn y man lletaf, a ddangosir â llinellau sebra ac y rhoddir y cyfeirnod 'A' iddo ar y plan a adnewwyd.

Darn afreolaidd ei siâp o briffordd sy'n rhan o'r llain ymyl ar ochr ogleddol Heol Llangewydd, 123 o fetrau i'r gorllewin o Faes y Gorllewin, sy'n 5.4 metr yn y man hiraf ac yn 1.8 metr yn y man lletaf, a ddangosir â llinellau sebra ac y rhoddir y cyfeirnod 'B' iddo ar y plan a adnewwyd.

Darn afreolaidd ei siâp o briffordd sy'n rhan o'r llain ymyl ar ochr ogleddol Heol Llangewydd, 80 metr i'r gorllewin o Faes y Gorllewin, sy'n 5.7 metr yn y man hiraf ac yn 3.5 metr yn y man lletaf, a ddangosir â llinellau sebra ac y rhoddir y cyfeirnod 'C' iddo ar y plan a adnewwyd.

Darn afreolaidd ei siâp o briffordd sy'n rhan o'r llain ymyl ar ochr ogleddol Heol Llangewydd, 73 o fetrau i'r gorllewin o Faes y Gorllewin, sy'n 5.7 metr yn y man hiraf ac yn 3.2 metr yn y man lletaf, a ddangosir â llinellau sebra ac y rhoddir y cyfeirnod 'D' iddo ar y plan a adnewwyd.

## ATODLEN 2

### Y Datblygiad

Datblygiad preswyl o 127 o anheddau a seilwaith cysylltiedig ar hen safle Ysgol Bryn Castell, Heol Llangewydd, Pen-y-bont ar Ogwr.

## SCHEDULE 1

### Lengths of highway to be stopped up (All measurements are approximate)

An irregular shaped length of highway being part of the verge on the northern side of Llangewydd Road, located 130 metres west of Westfield Avenue, with a maximum length of 5.4 metres and a maximum width of 1.8 metres shown by zebra hatching and given the reference 'A' on the deposited plan.

An irregular shaped length of highway being part of the verge on the northern side of Llangewydd Road, located 123 metres west of Westfield Avenue, with a maximum length of 5.4 metres and a maximum width of 1.8 metres shown by zebra hatching and given the reference 'B' on the deposited plan.

An irregular shaped length of highway being part of the verge on the northern side of Llangewydd Road, located 80 metres west of Westfield Avenue, with a maximum length of 5.7 metres and a maximum width of 3.5 metres shown by zebra hatching and given the reference 'C' on the deposited plan.

An irregular shaped length of highway being part of the verge on the northern side of Llangewydd Road, located 73 metres west of Westfield Avenue, with a maximum length of 5.7 metres and a maximum width of 3.2 metres shown by zebra hatching and given the reference 'D' on the deposited plan.

## SCHEDULE 2

### The Development

Residential development of 127 dwellings and associated infrastructure at the former Ysgol Bryn Castell site, Llangewydd Road, Bridgend.